# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygnor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 25 Ionawr 2024**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Catrin Wager

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Ann Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Huw Jones

**Cynghorydd Sir**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

**1. Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Walter Williams.
Diolchwyd i'r Clerc am drefnu'r cyfarfod hybrid cyntaf.

**Ymddiheuriadau** – Y Cyngr. Dyfrig Jones, Einir Williams, Bleddyn Williams a Rheinallt Puw.

**2. Datgan Diddordeb**
Dim i'w ddatgan.

**3. Materion Brys**
Dim.

**4. Cofnodion**
Nodwyd fod y Cyng. Rheinallt Puw i lawr yn bresennol ac absennol yn y cyfarfod diwethaf, y Clerc i addasu. Y Clerc hefyd i addasu'r frawddeg o dan bwynt Maes Parcio Gerlan – *"Cadarnhawyd fod y Clerc wedi dod i gytundeb hefo'r tir feddiannwr yn dilyn y drafodaeth ger y safle."* Yn dilyn yr addasiadau hyn, cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2023.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 Maes parcio wrth y Sior, Carneddi – cais i ail beintio y llinellau –** Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd ail beintio'r llinellau - ar y gweill.
**5.2 Llinellau Melyn Ffordd Llwyn Bleddyn –** Adroddwyd fod y Clerc wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn i dynnu'r llinellau melyn ar ffordd Llwyn Bleddyn, dim ymateb hyd yn hyn.
**5.3 Gwasanaeth Bws Gerlan –** Nodwyd siom fod Arriva yn bwriadu canslo'r gwasanaeth i Gerlan o fis Ionawr ymlaen. Adroddwyd fod y Cyng. Rheinallt Puw a Huw Davies, Partneriaeth Ogwen yn edrych i mewn i'r mater. Cytunwyd y bydd y Clerc yn llunio llythyr cryf a'i danfon at Arriva i wrthwynebu'r penderfyniad hwn – dim ymateb hyd yn hyn. Cytunwyd bod y Cyngor

Cymuned yn credu fod y pris, sef £1.50 un ffordd, braidd yn ddrud – y Clerc i drafod hefo Huw Davies.
**5.4 Llwybr y Llaw Feddyg, Parc Meurig –** Nodwyd fod y Clerc wedi bwriadu cyfarfod gyda Hywyn Williams, Cyngor Gwynedd ar y safle i drafod grantiau posib i ariannu'r gwaith, ond cafodd y digwyddiad ym Mharc Meurig ei ohirio oherwydd y tywydd. Y les gwreiddiol angen ei adnewyddu, y clerc i drefnu cyfarfod cyn gynted a phosib hefo'r grŵp ffocws . Nodwyd hefyd fod coeden arall wedi disgyn yn dilyn y storm, Cyng. Catrin Wager i ddanfon llun at y Clerc.
**5.5 Sedd Wag -** Adroddwyd fod y Clerc wedi cysylltu gyda'r adran etholiadau ynglyn a'r sedd wag, dim ymateb hyd yn hyn. Y Cyng. Paul Rowlinson i holi pellach.
**5.6 Toriadau Gwair -** Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd am codi'r gwair ar ôl y 3 toriad cyntaf ac i holi am 3 torri a chodi ychwanegol, felly cyfanswm o 6 toriad – ar y gweill.
**5.7 Goleuadau Nadolig –** Braf oedd gweld y Stryd Fawr hefo'r goleuadau Nadolig wedi'i gosod, pawb yn ei chanmol.
**5.8 Cyng. Rheinallt Puw – Ystyried gosod CCTV ym Maes Parcio Pantdreiniog –** Y Clerc wedi derbyn pris am y gwaith – £9491.62. Penderfynwyd ail gyflwyno'r eitem hon blwyddyn nesaf, gan gadw llygaid ar y sefyllfa.

**6. Archeb 2024-25**
Adroddwyd fod yr Is-bwyllgor Cyllid wedi cyfarfod wythnos diwethaf, ac wedi mynd drwy'r eitemau yn yr archeb yn fanwl. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd ar yr archeb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef £104,541.00. Y Clerc i anfon y ffurflen at Gyngor Gwynedd.

O dan yr eitem hon, adroddwyd y Clerc fod Cyngor Cymuned Llandygai wedi penderfynu eu bod ddim mewn sefyllfa i ariannu'r Swyddog Cynnal o fis Ebrill ymlaen oherwydd diffyg cyllid, ac felly cynigwyd 4 awr ychwanegol i Gyngor Cymuned Bethesda. Yn dilyn y cynnig hwn, penderfynwyd ariannu'r 4 awr ychwanegol o fis Ebrill ymlaen.

**7. Rhoddion**
Cylchredwyd y rhestr hyd yn hyn at yr aelodau. Y Clerc i ail gyflwyno'r eitem hwn yn y cyfarfod nesaf.

**8. Maes Parcio Gerlan**
Adroddwyd fod y Clerc wedi bod mewn cyswllt hefo cyfreithiwr ar ran y Cyngor, ac wedi cyfarwyddo nhw i gysylltu gyda chyfreithiwr y tir feddiannwr – ar y gweill.

**9. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Ionawr 2024'
**9.1** Y Parch Sara Roberts, Caffi Colled – Cytunwyd y Cyngor eu bod yn hapus i'r grŵp gyfarfod ar y 3ydd dydd Llun, ac yn falch iawn clywed fod y sesiynau yn llwyddiannus.
**9.2** Carnifal Bethesda – Cau Stryd Fawr – Nodwyd fod y Cyngor yn cefnogi'r cais hwn.
**9.3** Cyng. Rheinallt Puw – Ffordd un-ffordd Pant Glas – Penderfynwyd fod y Cyngor yn cefnogi mewn egwyddor, ond bod angen ymgynghori gyda'r trigolion lleol yn gyntaf. Nodwyd hefyd fod yno broblemau hefyd hefo Lon Pab, y Clerc i ymateb i Cyng. Rheinallt Puw.
**9.4** Aled Owen, Llwybr Llechi Eryri – Byrddau Dehongli yn Llys Dafydd – Cytunwyd bydd y Clerc yn trafod hyn gydag Aled.
**9.5** Iwan Emlyn Davies, Cynllun Rhaglen Trefi, Cynllun Finyls – yr aelodau i ddanfon unrhyw sylwadau am eiddo addas at y Clerc, y Clerc i lunio rhestr a'i danfon ymlaen at Gyngor Gwynedd.

**9.6** Partneriaeth Ogwen – Bil Trydan Llyfrgell – Y Clerc i holi am adroddiad gan y Bartneriaeth am y cytundeb gwreiddiol hefo'r Cyngor Cymunedau, ac i holi am ychwaneg o wybodaeth ynglŷn â'r costau ayyb.

**10. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C23/0207/13/CR**<br>Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda | Addasiadau mewnol<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C23/0729/13/LL**<br>Bron Arfon, Ffordd Llwyn Bleddyn, Rachub | Trosi adeilad allanol yn 1rh. Uned Gosod Gwyliau ynghyd â phob Datblygiad Cysylltiedig arall<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C23/0854/13/TR**<br>Tir ger Ffordd Tanybwlch, Rachub. | Gosod polyn a thrawsnewid HV<br>**Penderfyniad:** Wedi ei ganiatau. |

**<u>Ceisiadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C23/0957/13/DT**<br>Yr Hen Fecws, 4 Tŷ'n Y Coed, Carneddi, | Estyniad un llawr i'r eiddo presennol ac ymestyn cwrtil<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.<br>*Cyng. Dyfrig Jones yn datgan diddordeb.* |
| **C23/0969/13/LL**<br>Natwest Bank, 13 Stryd Fawr, Bethesda | Addasu'n fewnol adeilad presennol o ddefnydd busnes ar y llawr gwaelod gyda 3 fflat preswyl i ddefnydd busnes ar y llawr gwaelod gyda 6 fflat preswyl.<br>**Penderfyniad:** |

**13. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Colin Jackson | Torri a tacluso llwybrau | £450.00 |
| Llais Ogwan | Hysbyseb rhoddion | £27.00 |
| Opus Energy | Trydan Llys Dafydd | £70.86 |
| Partneriaeth Ogwen | Anrhegion Nadolig Preswylwyr Plas Ogwen | £7.20 |
| Pritchard's | Coeden Nadolig Gorffwysfan | £240.00 |
| Scottish Power | Gorffwysfan Nwy | £198.32 |

| | | |
|---|---|---|
| Scottish Power | Gorffwysfan Nwy | £133.11 |
| Scottish Power | Gorffwysfan Trydan | £319.00 |
| Scottish Power | Goleuadau Nadolig | £311.92 |
| Dwr Cymru | Cyflenwad Dwr Gorffwysfan | £132.68 |
| Dwr Cymru | Cyflenwad Llys Dafydd | £10.68 |
| John Wyn Jones | Cyflog Rhagfyr | £364.00 |
| CThEM | TWE Rhagfyr | £91.00 |
| Partneriaeth Ogwen | Nwyddau ar gyfer atgyweirio wal Llys Dafydd | £86.88 |
| Cyngor Gwynedd | Gosod goleuadau nadolig a gwaith ychwanegol | £9,054.00 |
| Williams Ellis | Adroddiad Prisio | £480.00 |
| Partneriaeth Ogwen | Wifi Cymunedol | £1,200.00 |
| John Wyn Jones | Cyflog Ionawr | £364.00 |
| CThEM | TWE Ionawr | £91.00 |